OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1647

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005

## RHAN 5

Cyffredinol

**Dadansoddi gan Fferyllydd y Llywodraeth**

**13.**—(1) Caiff y llys lle dygir unrhyw achosion ger ei fron o dan y Rheoliadau hyn, os yw o'r farn bod hynny'n briodol at ddibenion yr achosion, beri —

(a) bod unrhyw ddeunydd neu eitem sy'n destun yr achosion, ac os cawsant brofion eisoes y gellir rhoi profion pellach iddynt, neu

(b) bod unrhyw fwyd a fu mewn cysylltiad ag unrhyw ddeunydd neu eitem o'r fath,

yn cael eu hanfon at Fferyllydd y Llywodraeth a fydd yn cyflawni'r profion hynny y mae'n barnu eu bod yn briodol a throsglwyddo tystysgrif o'r canlyniad i'r llys, a thelir costau'r profion hynny gan yr erlynydd neu gan y person a gyhuddwyd yn ôl gorchmyniad y llys.

(2) Os ceir achos pan ddygir apêl ond na chymerwyd camau o dan baragraff (1), bydd darpariaethau'r paragraff hwnnw'n gymwys o ran y llys sy'n gwrando ar yr apêl.

(3) Rhaid i unrhyw dystysgrif o'r canlyniad i'r profion a drosglwyddir gan Fferyllydd y Llywodraeth o dan y rheoliad hwn gael ei llofnodi gan Fferyllydd y Llywodraeth neu ar ei ran, ond gellir gwneud y profion gan unrhyw berson o dan gyfarwyddyd y person sy'n llofnodi'r dystysgrif.

(4) Rhaid ystyried bod unrhyw dystysgrif a drosglwyddir gan Fferyllydd y Llywodraeth yn unol â pharagraff (3) yn dystiolaeth o'r ffeithiau a nodir ynddi oni fydd unrhyw barti i'r achos yn gofyn i'r person a lofnododd y dystysgrif gael ei alw yn dyst.

(5) Yn y rheoliad hwn mae'r term “profion” yn cynnwys archwiliad a dadansoddiad, a dehonglir “profi” yn unol â hynny.